o dud 18

chleddyfau miniog iawn ar ôl hyn, rhwng T. C. Edwards a Henry Thomas Edwards, ficer galluog a lliwgar Caernarfon, (9 Ebrill, 1870, 8, gol 1). Yr erthyglau hyn oedd uchelfannau tymor Gwyneddon yn olygydd *Y Goleuad.*

* * *

CYNHALIWYD cyfarfod blynyddol cyntaf y cwmni yn y Tŵr Gwyn, Bangor Uchaf, ar 18 Hydref 1870. Roedd y papur erbyn hyn yn y gors ariannol.

Manylwyd ar yr enbydrwydd - nifer y darllenwyr yn lleihau'n gyson, - ni chyrhaeddwyd mo'r tair mil wythnosol unwaith. Roedd yr argyfwng yn bod er i rai o'r cyfarwyddwyr weithio'n galed iawn ar ran y cwmni, yn ysgrifennu erthyglau heb dderbyn dimai o gydnabyddiaeth, er iddynt grwydro'r wlad yn ceisio cefnogaeth i'r papur, ac er i'r golygydd yntau lafurio'n ddi-baid yn y swyddfa yng Nghaernarfon.

Ac yn naturiol, fe fu beirniadu. Cyhuddwyd Gwyneddon o olygu newyddiadur a oedd yn rhy 'safonol' ei gynnwys i apelio at ddarllenwyr 'cyffredin', tra credai rhai o'r cyfarwyddwyr fod ei bris yn rhy ddrud.

Yn y cyd-destun hwn yr ysgrifennodd y Parch Edward Morgan, y Dyffryn, un o berchnogion amlycaf y papur y geiriau hyn:

> *'I fear its days are numbered. There are no business men on the directorship. Money, as it appears to me, is squandered foolishly, and the editor seems to think that he is lord of all he surveys.'*

Yn y cyfarfod hwn fe ychwanegwyd enwau'r Parch John Roberts, Ieuan Gwyllt, a Robert Rowlands, gŵr busnes ariannog iawn o ardal Tan y Grisiau, yn gyfarwyddwyr y cwmni. Roedd Ieuan Gwyllt yn amlwg fel gweinidog a newyddiadurwr a cherddor.

Dyn a wnaeth ei ffortiwn yn y chwareli llechi a banciau Meirionnydd a Dwyfor oedd Robert Rowlands, gŵr grymus a gyfunodd lwyddiant bydol ag elusengarwch diffuant, yn byw yn 'ei balas ei hun' ym Mhenmorfa, yn gadeirydd bron pob 'pwyllgor pwysig' a berthynai i'r Methodistiaid Calfinaidd.

Ei allu ef a gadwodd goffrau'r *Goleuad* rhag bod yn hollol wag. Honnwyd gan sawl un mai 'Mr Rowlands oedd y cwmni.'

Cyfarfu'r cyfarwyddwyr eto ar 10 Mehefin 1871 a chafodd Gwyneddon gytundeb newydd. Collodd waith y golygydd i Ieuan Gwyllt, ond roedd i barhau i argraffu a chyhoeddi'r papur. Dyna fel y bu pethau o 24 Mehefin 1871 hyd 27 Ebrill 1872.

* * *

ROEDD Ieuan Gwyllt wedi bod yn is-olygydd *Yr Amserau* yn Lerpwl yn 1852, ac yr oedd wedi golygu'r *Gwladgarwr* yn Aberdâr. Ond nid oedd yn llwyddiant yng nghadair olygyddol *Y Goleuad.*

Gweithiodd yn ddiwyd ac yn ddwys, ond nid oedd ganddo'r ddawn i ddenu cyfranwyr lliwgar, nid oedd o chwaith yn ŵr hawdd cydweithio ag o.

Trymaidd a difrifol oedd y papur yn y cyfnod hwn. Chwedl y Parch Evan Jones, (Caernarfon wedyn):

> *'Pallai yn y pupur, yr halen, y sauce a'r dressing sydd yn angenrheidiol i Newyddiadur Cymreig i lwyddo yn y dyddiau hyn.'*

Cyfarfod sobor o ddigalon oedd cyfarfod y cyfarwyddwyr ar 3 Ebrill 1872. Roedd y cwmni wedi colli £1,120 ers y cychwyn.

Roedd anhawster ynglŷn â'r olygyddieth - ymddengys i Wyneddon ail afael yn yr awenau ar ôl i Ieuan Gwyllt roi'r gorau i bethau ar 27 Ebrill, a pharhaodd fel golygydd hyd ddiwedd Gorffennaf yr un flwyddyn.

Haf anniddig oedd haf 1872 i'r cyfarwyddwr. Yn ôl eu cyfarfod yn y Bala ar 19 Mehefin, doedd pethau'n gwella dim, roedd y colledion yn £9 yr wythnos, roedd Gwyneddon yn cael ei gyhuddo o ddosbarthu'r papur yn aneffeithiol. Penderfynwyd rhoi'r ffidil yn y to.

Ond yng nghyfarfod y Bala fe ymunodd y Parch Evan Jones â bwrdd y cyfarwyddwyr. Yn ddiarwybod iddyn nhw fe achubwyd y papur.

* * *

ROEDD Evan Jones eisoes yn enwog pan ymunodd â chwmni'r *Goleuad.* Roedd hefyd yn hyddysg ym mhethau'r wasg, wedi bwrw'i brentisiaeth ym Machynlleth, wedi gweithio ym Methesda ac yn swyddfa'r *Herald* yng Nghaernarfon cyn mynd i Gaergybi ac argraffu'r *Pwnch Cymraeg* yno efo Lewis Jones.

Erbyn 1867 yr oedd wedi bod yng ngholeg y Bala, wedyn bu'n weinidog y Calfiniaid yng Nghorris. Yma y daeth i amlygrwydd ar gorn ei lythyrau yn y *Cambrian News* yn ymosod yn ddigyfaddawd ar W. R. M. Wynne, ymgeisydd y Toriaid yn etholiad 1868 ym Meirion.

Yn sgîl hyn dechreuodd ysgrifennu'r golofn Gymraeg i'r *Cambrian News,* a pharhaodd i wneud hynny ar ôl symud i'r Dyffryn yn olynydd y Parch Edward Morgan y 1872.

Yn 1875 daeth yn weinidog eglwys Moriah, Caernarfon, 'Evan Jones Caernarfon' oedd ei enw wedyn am weddill ei oes. Roedd yn un o weinidogion gwleidyddol mawr ei enwad, yn gymeriad o bwys cenedlaethol, yn flaenllaw yn uchel rengoedd ei enwad, y blaid Ryddfrydol a'r mudiad Datgysylltiad.

Croesai gleddyfau ag amryw un a safai ar ei lwybr, gŵr miniog, trahaus, pigog, dawnus. Llenor newyddiadurol wrth reddf, gwyddai am ochr arw ei natur fel y gwyddai am ei ddoniau mawr.

> *'Nid oes neb yn gofidio mwy na myfi na fuasai fy natur yn llai sur ac yn fwy hufenaidd.'*

Cyfarfu'r perchnogion yn Nolgellau ar 22 Gorffennaf 1872, ac apwyntiwyd Evan Jones yn olygydd am dâl o bunt yr wythnos. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf o dan ei ofal ef ar 3 Awst 1872.

* * *

CYFARTALEDD cylchrediad wythnosol *Y Goleuad*, yn 1872 oedd 1,419. Symudwyd y papur i swyddfa D. H. Jones yn Nolgellau ar ôl rhifyn 26 Hydref 1872, a pharahaodd Evan Jones i olygu.

Pan gyfarfu'r cyfarwyddwyr ar 20 Ebrill 1875 yr oedd Evan Jones wedi llwyddo. Roedd gobaith am ddyfodol *Y Goleuad.* yn ystod y cyfnod rhwng hydref 1872 a gwanwyn 1875 fe fu nifer o unigolion yn ysgrifennu'n wirfoddol ac yn ddi-dâl ar gyfer y papur, nid oedd Evan Jones yntau wedi derbyn tâl am waith y golygydd.

Erbyn 1876 yr oedd y papur yn gwneud elw o £5 yr wythnos. Roedd cylchrediad y papur, ar gyfartaledd wythnosol, yn 2,522.

Pam y methodd Gwyneddon a pham y llwyddodd Evan Jones gyda'r *Goleuad?*

Mae'n amlwg i'r papur, yn y dyddiau cynnar iawn, ddioddef oherwydd rhagfarn llawer o aelodau'r enwad yn erbyn unrhyw bapur newydd. Fe ysgrifennodd Gwyneddon gryn dipyn am newyddiaduron Cymraeg, ond tawedog iawn oedd o ynglŷn â'i ddyddiau efo'r *Goleuad.*

Roedd un peth yn sicr - roedd Gwyneddon yn costio'n ddrud i'r cwmni - fe addawyd y swm posibl o £19 a 15s iddo ar gyfer ei dreuliau a'i elw pe bai wedi llwyddo i werthu pedair mil o gopiau yn wythnosol. Lwyddodd o ddim, mae'n wir, ond yr oedd yna ddwy bunt arall yn mynd iddo am ei waith golygyddol.

Gwyddys i D. H. Jones argraffu'r *Goleuad* yn rhatach na Gwyneddon, a hynny er bod angen rhagor o inc a phapur ar gyfer y cynnydd yn y cylchrediad.

Mae'n debyg fod gwir yng ngeiriau cyhuddgar Lewis Lewis, emporium y Nelson. Nid ymddengys fod gan Wyneddon wasg addas ar gyfer argraffu'r *Goleuad* - beth ddigwyddodd i addewid y cyfarwyddwyr am £130 ar gyfer offer newydd tybed?

Ym Mawrth 1873, ac yntau bellach ar ei liwt ei hun, fe brynodd yr argraffydd wasg newydd fel y gallai brintio 'gyda chyflymdra a rhadlonrwydd'.

## DAFYDD WYN WILIAM am wybod mwy am

# MYNYDD Y GOF

O HOLI pennaeth y Llyfrgell Brydeinig, Llundain, cefais wybod fod papurau cyhoeddwyr y gyfrol *Mynydd-y-gof* (1905) wedi eu diogelu yno. Yn eu plith yr oedd llythyr, dyddiedig 11 Rhagfyr 1905, at yr awdur, Robert Roberts:

> *Dear Sir,*
>
> *We are much obliged for your letter of the 5th. enclosing cheque for balance of our acco. and we send receipt herewith.*
>
> *We are very sorry that 'Mynydd y Gof' turned out to be such a bulky volume but we don't see how it can be remedied now.*
>
> *On receipt of your letter we telegraphed to our Printers to know whether by chance the type had yet been distributed or not, and they reply that it has unfortunately all been distributed, and that in the event of any further copies the whole book would have to be reset.*
>
> *We have sent off the balance of copies to Carnarvon.*
>
> *Yours Faithfully,*
>
> *F. R. S.*

Amlwg fod yr awdur wedi talu'r cyhoeddwyr am eu gwaith. Hefyd mynegodd gŵyn am y papur trwchus a ddefnyddiwyd i argraffu'r gyfrol a holodd a oedd yr argraffwyr yn Aberdeen wedi chwalu'r teip. Yr oedd yn awyddus i gael rhagor o gopiau. Fodd bynnag, yr oedd yn rhy ddiweddar - yr oedd y teip eisoes wedi eu chwalu.

Diddorol sylwi fod gweddill y copiau a oedd yn llaw y cyhoeddwyr yn Llundain wedi eu hanfon i Gaernarfon. Gwnaed hyn, mae'n debyg, er mwyn hwyluso'r gwaith o'u dosbarthu.

Anfonais air i Aberdeen i holi am argraffwyr *Mynydd-y-Gof* a chefais wybod fod cwmni 'W. Jolly & Sons' wedi dirwyn i ben yn fuan ar ôl 1932-33. Bu William Jolly (g. 1829), sefydlydd y wasg, farw 17 Medi 1899 a dilynwyd ef gan ei bedwar mab. Y meibion oedd argraffwyr y gyfrol.

Yr wyf yn argyhoeddedig nad argraffwyd rhagor na rhyw gant a hanner o gopiau o *Mynydd-y-gof* ac ni chredaf fod llawer ohonynt wedi goroesi. Nid oes copi yn y Llyfrgell Brydeinig.

Gw. *Y Casglwr* (Awst 1989).

Diolchaf i Chadwyck-Healy, perchen hawlfraint papurau *Swan Sonnenschein & Co* am ganiatad i dyfynnu'r llythyr uchod.